# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Pips Lodge**

**Aberdaugleddau**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Pips Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Silver Springs Support Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 1/2/2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon iawn yn byw yn Pip's Lodge. Mae awyrgylch hamddenol, ond proffesiynol ym mhob rhan o'r cartref yn helpu'r bobl ac ymwelwyr i deimlo'n gyfforddus. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i gael cymaint o reolaeth ag y dymunant o ran sut maent yn byw ac maent yn gwahodd pob person i gymryd rhan mewn trafodaethau am eu bywydau. Maent yn annog y bobl i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt.

Dywed y staff gofal eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn cael hyfforddiant digonol ar gyfer eu rolau.
Maent yn meddu ar wybodaeth dda am bob person yn y cartref ac maent yn awyddus i wneud
gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl. Mae sianeli cyfathrebu da yn amlwg, a chaiff ansawdd y cymorth y mae'r bobl yn ei gael ei fonitro mewn modd cadarn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn
ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac mae'r holl bobl a'r holl staff gofal yn ei adnabod yn dda.

Mae niferoedd digonol o staff gofal ar gael ac mae ganddynt gymysgedd o sgiliau i ddarparu cymorth effeithiol i'r bobl. Maent yn wybodus, yn barchus ac yn sensitif i anghenion a dymuniadau'r bobl. Mae cyfarpar diogelwch ar gael a chaiff atgyfeiriadau iechyd a gofal cymdeithasol eu gwneud pan fo angen er mwyn hybu iechyd a llesiant y bobl. Rhoddir cyfleoedd i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref ac yn y gymuned.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru lle bynnag y bo'n bosibl

## Llesiant

Mae'r bobl a'u perthnasau yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'r cynlluniau gofal yn darparu gwybodaeth glir i alluogi'r staff gofal i ddeall y ffordd orau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn dod ymlaen yn dda â'r staff gofal. Dywedodd un person wrthym: *"I like all the staff, they are fun."* Dywedodd perthynas "*all the staff are excellent here, I am more than happy with the care provided".* Mae cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael cynnig dewisiadau i wneud penderfyniadau bob dydd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn siarad yn rheolaidd â'r bobl sy'n byw yn y cartref a'u teuluoedd am yr hyn sy'n bwysig a'r ffordd orau o'u cefnogi.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Mae gan Pip's Lodge bolisi diogelu priodol ar waith ac mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion agored i niwed. Mae'r rheolwr yn dangos dealltwriaeth dda o'r gofynion cyfreithiol ac mae'n deall pryd mae angen gwneud atgyfeiriad diogelu i'r Awdurdod Lleol.

Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth cywir, ar yr adeg gywir. Mae unrhyw newidiadau i anghenion a dymuniadau'r bobl yn cael eu nodi a'u hystyried ar unwaith. Gwelsom fod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud at amrywiaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn diwallu anghenion newidiol y bobl.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt pan fyddant am eu gwneud. Gwelsom fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael sy'n ystyrlon i'r bobl. Drwy gydol yr arolygiad gwelsom weithgareddau yn cael eu cynnal yn y cartref wedi'u hwyluso gan y staff gofal, ac roedd y bobl yn mynd i weithgareddau allanol ac apwyntiadau gyda chymorth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau fel mynd allan am goffi, i siopau lleol, am dro neu am daith allan yn y car a defnyddio cyfleusterau cymunedol. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y bobl yn cael eu hannog i gadw'n egnïol ac i wneud cymaint ag y gallant drostynt eu hunain. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghofnodion gofal y bobl.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cefnogi ac yn annog eu llesiant. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn cynnwys eitemau personol o'u dewis ac wedi'u dodrefnu'n addas. Mae ganddynt gyfleusterau sy'n annog eu hannibyniaeth. Mae'r adeilad mewn cyflwr da, caiff gwiriadau diogelwch eu cwblhau pan fo angen a chaiff peryglon eu lleihau cyn belled â phosibl.

Mae'r broses recriwtio staff yn ddiogel gan fod yr holl wiriadau cyn cyflogi angenrheidiol yn cael eu cwblhau cyn i'r staff ddechrau gweithio. Mae'r gwiriadau hyn yn bwysig gan eu bod yn cadarnhau a yw unigolyn yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed.

## Gofal a Chymorth

Gwnaethom archwilio sampl o ffeiliau gofal, a oedd yn cynnwys cynlluniau personol ac asesiadau risg manwl a chyfredol. Mae cynlluniau personol ar gyfer pob agwedd ar lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol yr unigolion ar waith a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn megis proffiliau personol ar waith ac mae atgyfeiriadau am gyngor a chymorth proffesiynol gan wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu gwneud yn ôl yr angen.

Drwy gydol yr arolygiad gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd gadarnhaol, gan ddangos agweddau gofalgar. Mae'r staff gofal yn amlwg yn adnabod y bobl yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Wrth sôn am roi gofal a chymorth i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, roedd y staff gofal bob amser yn frwdfrydig. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl yn unol â'u hanghenion unigol ac yn sensitif i unrhyw newidiadau y gallai'r unigolyn fod yn eu mynegi neu'n eu profi. Mae'r bobl yn ymddangos yn hamddenol yng nghwmni'r tîm gofal a chlywsom chwerthin a hwyl a sbri rhwng y bobl a'r staff gofal. Dangosodd y bobl eu cyflawniadau i ni, gan sôn amdanynt a'u balchder eu bod wedi'u cyflawni. Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor annibynnol ag y gallant, er enghraifft, drwy gyfrannu at y bwydlenni a'r gweithgareddau bob wythnos. Caiff y bobl eu cefnogi a'u cymell i fyw bywyd mor iach â phosibl.

Mae lefelau staffio digonol ar waith i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn effeithiol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael digon o amser, fel arfer, i gefnogi'r bobl yn briodol. Gwelsom y staff gofal yn ymateb i geisiadau gan y bobl mewn modd amserol, ac roedd y rhyngweithio yn gyfeillgar, yn barchus ac yn bwyllog.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn lleihau'r risg o haint ac mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth o reoli heintiau. Mae arferion hylendid da ar waith ym mhob rhan o'r cartref, roedd pob ardal o'r cartref yn lân ac nid oedd unrhyw arogleuon gwael yno. Caiff cynhyrchion glanhau eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo ac mae nodiadau canllaw ar gael i unrhyw un sy'n eu defnyddio. Mae gan y gwasanaeth systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Ceir polisi a gweithdrefn meddyginiaeth briodol a chwblheir archwiliadau rheolaidd gan uwch-aelodau o'r staff. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei chadw'n ddiogel. Mae pob aelod o'r staff gofal sy'n rhoi meddyginiaethau yn cael ei hyfforddi'n briodol i wneud hynny.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cyfforddus a chroesawgar sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae ystafelloedd gwely unigol y bobl wedi'u dodrefnu â'u heiddo eu hunain, sy'n adlewyrchu personoliaeth y bobl sy'n preswylio ynddynt. Lle y bo'n bosibl, mae'r bobl yn dewis eu dodrefn a'u gosodiadau, yn unol â'u dewisiadau personol. Mae ardaloedd cymunedol yn rhoi cyfle i'r bobl gymdeithasu neu i dreulio amser tawel ar eu pen eu hunain os byddant yn dewis gwneud hynny. Mae'r ardal fwyta gyfforddus yn dueddol o gynnig canolbwynt i'r bobl gwrdd a chymdeithasu.

Mae amserlen o waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a rhaglen adnewyddu ar gyfer adeiledd a gwaith addurno ar y safle ar waith ac roedd y cartref yn ymddangos mewn cyflwr da. Mae gan ystafelloedd gwely'r bobl gyfleusterau a chyfarpar sy'n addas ar gyfer yr unigolyn ac yn hyrwyddo ei annibyniaeth.

Mae mesurau ar waith i sicrhau y caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi a'u rheoli. Mae trefniadau ar gyfer goruchwylio iechyd a diogelwch ar waith a chynhelir archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd. Mae'r cofnodion cynnal a chadw yn dangos y caiff cyfarpar a gwasanaethau eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel. Cedwir cofnodion personol y bobl yn ddiogel, a chaiff mynediad i'r cartref ei fonitro gan y staff er mwyn helpu i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn, yn ogystal â chofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Caiff cofnodion personol y bobl eu storio'n ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu da ar waith i helpu'r gwasanaeth i weithredu'n ddidrafferth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd iawn, yn cyfarfod â'r bobl a'r staff gofal ac yn eu hadnabod yn dda. Gwelsom yr adroddiad monitro ansawdd diweddaraf, a oedd yn cynnwys adborth gan y bobl. Caiff argymhellion ar gyfer gwelliannau eu nodi a'u rhoi ar waith yn brydlon lle bynnag y bo'n bosibl. Gwelsom dystiolaeth fod yr Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda iawn a disgrifiodd y rheolwr y systemau ar gyfer monitro'r trefniadau sicrhau ansawdd er mwyn gwneud yn siŵr y rhoddir gofal o safon uchel yn gyson.

Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol, sy'n ymweld â'r cartref yn aml iawn ac y gall y rheolwr gysylltu ag ef yn hawdd. Darperir y gwasanaeth yn unol ag amcanion y Datganiad o Ddiben, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu'r staff gofal. Cawsom wybod er bod rhai o'r polisïau a'r gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu, nad oedd y dyddiadau diwygio wedi'u nodi a dywedodd y rheolwr, sy'n newydd i'r swydd, ei fod yn bwriadu ymdrin â hyn yn fuan.

Mae digon o staff ar ddyletswydd i gefnogi'r bobl a gofalu amdanynt yn ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos bod tîm sefydlog a chyson ar waith a bod cymysgedd o staff profiadol a newydd ar gael, a gwelwyd hyn yn ystod ein harolygiad. Mae'r staff gofal yn wybodus, yn gymwys ac yn cael eu gwerthfawrogi gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr. Drwy drafodaethau ac arsylwi, mae'n amlwg fod gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o'r bobl maent yn gofalu amdanynt ac o anghenion penodol pob unigolyn. Mae'r cofnodion hyfforddiant a sefydlu yn dangos bod y staff gofal yn cael sesiynau sefydlu cynhwysfawr ac amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant da i gyflawni eu rolau yn effeithiol a bod unrhyw geisiadau am hyfforddiant ychwanegol yn cael eu bodloni lle bynnag y bo modd. Mae'r gwiriadau cyn cyflogi gofynnol yn cael eu cwblhau cyn i'r staff ddechrau gweithio. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda drwy sesiynau goruchwylio ac arfarniadau a'u bod yn teimlo eu bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu drwy hyfforddiant parhaus. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn hawdd mynd atynt, ar gael yn hawdd i'r staff gofal ac yn weladwy iawn yn y cartref.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/11/2024